Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	9 Hydref 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Huw Hilditch Roberts / Gareth Watson
Awdur yr Adroddiad:	Gareth Watson, Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
Teitl:	Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?
Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg y Cyngor

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Amlinellu dull gweithredu Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg a chynllun gwaith cysylltiedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?
Cytuno ar y dull gweithredu a'r cynllun gwaith ar gyfer 2018/2019.

4. Manylion yr Adroddiad

Ar hyn o bryd mae deg Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg yn cynrychioli prif wasanaethau'r Cyngor.

Crëwyd y rolau hyn i ymateb i Safonau'r Gymraeg a'r Safonau uniongyrchol sy'n berthnasol i Gymraeg yn y Gweithle.

Mae'r Hyrwyddwyr yn cyfarfod bob chwarter ac maent wedi gwneud ymrwymiad cadarn i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gwasanaeth a chynorthwyo'r ymdrechion corfforaethol.

Rolau Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg yw:

- Hyrwyddo, cefnogi ac annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Mentora staff sy'n dysgu Cymraeg
- Cefnogi ymgyrchoedd a mentrau mewnol i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy gweladwy
- Creu diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad
- Annog a chefnogi rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith fusnes fewnol
- Cefnogi a hwyluso gwasanaethau dwyieithog yn eu gweithleoedd eu hunain

- Cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i phwysigrwydd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Iaith Gymraeg
- Bod yn arweinydd naturiol sy'n arwain wrth esiampl ac edrych ar wahanol ffyrdd o godi proffil y Gymraeg yn y gweithle

Mae rhai mentrau a ddilynwyd eisoes wedi'u rhestru isod:

- Cyflwyno cortynnau gwddf y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr
- Dechrau sgyrsiau yn Gymraeg gyda chydweithwyr
- Darparu cefnogaeth i ddysgwyr yn ystod eu cyrsiau drwy fentora/ sgyrsiau anffurfiol
- Archwilio arwyddion/ posteri yn eu hadeiladau eu hunain
- Cynorthwyo staff i fod â llofnod e-bost dwyieithog a negeseuon cyfarch dwyieithog ar eu ffonau
- Cyfrannu eitemau ar gyfer y tudalennau Cymraeg ar Linc

Y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2019:

- Archwilio cydymffurfio â'r polisi ateb ffonau
- Archwilio adeiladau i nodi cyfleoedd pellach ar gyfer presenoldeb gweledol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynorthwyo i gefnogi Eisteddfod yr Urdd drwy weithgareddau rheolaidd a negeseuon i gydweithwyr
- Cymryd arweinyddiaeth ar fentrau sy'n cefnogi diwylliant dwyieithog y sefydliad, gan gynnwys Eisteddfod y Cyngor
- Arwain ar weithgareddau cymdeithasol amser cinio, e.e. sesiwn paned a sgwrs, cynorthwyo'r Swyddog Iaith Gymraeg gyda'r rhain
- Trefnu cyfweliadau/ astudiaethau achos ar gyfer Linc gyda dysgwyr Cymraeg

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu'n fawr hefyd at Strategaeth y Gymraeg sy'n amlygu'r bwriad i ddenu digwyddiadau mawr sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllideb ar gyfer y Gymraeg. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o brif elfennau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau'r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

9. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw enw da'r awdurdod, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy Safonau'r Gymraeg i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn y Gweithle ac mewn cymunedau.